
**Rhif**: **5.1**

**Rhif y Cais / Application Number : C14-1228-14-LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C14/1228/14/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 08/03/2016 |
| Math y Cais: | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned: | Caernarfon |
| Ward: | Menai (Caernarfon) |
| Bwriad: | ADDASU'R RHAN O'R ADEILAD AMAETHYDDOL PRESENNOL AR GYFER 11 CYBIAU CWN YNGHYD A LLEOLI TANC STORIO CARTHION GERLLAW |
| Lleoliad: | PARCIA BACH, BANGOR ROAD, CAERNARFON, LL551TP |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU.

**1. Disgrifiad:**

1.1 Gohiriwyd y cais yn y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 16.05.16 er mwyn cynnal ymweliad safle cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cais. Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynglŷn ag effaith y bwriad ar fwynderau preswyl trigolion cyfagos ar sail sŵn ag aflonyddwch ynghyd ag addasrwydd y fynedfa bresennol i'r safle.

1.2 Cais llawn yw hwn ar gyfer addasu rhan cefn o'r adeilad amaethyddol presennol ar gyfer creu 11 o gytiau cwn ynghyd a lleoli tanc storio carthion ar lecyn o dir glas y tu cefn i'r iard. Bydd y bwriad hefyd yn cynnwys creu uned arwahanu i gadw cwn pe byddent yn dioddef o haint neu salwch ynghyd a lolfa/swyddfa ac ystafell paratoi bwyd. Bydd y cytiau wedi eu gosod mewn rhes gyda'r cytiau eu hunain o dan do'r adeilad amaethyddol a'r mannau agored wedi eu lleoli y tu allan i'r adeilad amaethyddol. Bydd hyd y cytiau yn 3.8m (gyda 2m yn ymwthio allan i'r awyr agored) a'u lled yn amrywio o 1.5m-1.8m gyda mynediad iddynt oddi ar goridor sy'n rhedeg ar hyd y cefn.

1.3 Bwriedir gosod tanc storio carthion oddeutu 11m i'r dwyrain o'r cytiau ar lecyn o gae glas mewn lleoliad sydd fwy na 50m i ffwrdd o unrhyw ffynnon a chwrs dwr. Y bwriad yw gwagio'r tanc yn achlysurol gan gwmni trwyddedig. Gwasanaethir y daliad amaethyddol gan fynedfa oddi ar y gefn ffordd A.487 gyda rhodfa (sydd wedi ei ledu'n ddiweddar) yn cysylltu'r eiddo a'r fynedfa ei hun.

1.4 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion gorllewinol Caernarfon mewn ardal rhannol wledig sy'n cynnwys anheddau preswyl wedi eu lleoli ar wasgar i'r gogledd, gorllewin ac i'r de-ddwyrain o safle'r cais. Lleolir yr annedd agosaf, Tal Menai ( sy'n cynnig gwasanaeth gwely a brecwast), 89m i'r gorllewin tra bod yr anheddau i'r gogledd wedi eu lleoli rhwng 110m a 148m i ffwrdd. Mae'r clwstwr o anheddau preswyl i'r de-ddwyrain wedi eu lleoli rhwng 188m a 211m i ffwrdd. Mae'r ardal i'r gogledd ac i'r gogledd- dwyrain o'r safle yn ardal amaethyddol agored ac mae'r ardal i'r de o'r safle yn cynnwys coed a choedlannau sefydledig yn ogystal ag anheddau preswyl mewn clwstwr gan gynnwys Penrhiw, Stablau, Bryn Parkia, Parkia a Bwthyn Parkia.

1.5 Cyflwynwyd Datganiad Dylunio a Mynediad gyda'r cais. Yn ychwanegol ymgymerwyd ag asesiad sŵn diwygiedig ar gais Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gan fod yr asesiad gwreiddiol yn annigonol i alluogi'r Gwasanaeth cynnig cyngor manwl ar y bwriad ei hun.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r

Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

**2.3 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL
Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda’r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS
Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i’r amgylchedd neu’r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o’r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru’r effaith.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a’r amgylchedd lleol.

POLISI B23 – MWYNDERAU
Diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau’r ardal leol.

POLISI B24 - GWNEUD NEWIDIADAU AC YMESTYN ADEILAD O FEWN FFINIAU DATBLYGU, PENTREFI GWLEDIG A CHEFN GWLAD
Sicrhau fod cynigion i wneud newidiadau neu ymestyn adeilad yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i ddiogelu cymeriad a gwerth mwynderol yr ardal leol.

POLISI B25 – DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchodir cymeriad gweledol ardal y Cynllun trwy sicrhau mai dim ond llechi Cymreig naturiol neu lechi sy’n debyg o ran edrychiad, lliw a nodweddion hindreulio fydd yn cael eu caniatáu ar doi, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae’r math o adeilad neu ei leoliad penodol, neu’r manteision o ran cynaliadwyedd yn golygu y byddai deunydd arall yn briodol. Ar gyfer rhannau eraill o adeiladau, disgwylir defnyddio deunyddiau adeiladu o safon uchel sy’n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol. Gwrthodir cynigion fydd yn arwain at gyflwyno deunyddiau sy’n israddol neu’n ymwthiol.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY’N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a’r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH36 - CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT
Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

P0LISI D10 - ADDASU ADEILADAU AR GYFER DEFNYDD DIWYDIANNOL NEU FUSNES
Caniatau cynigion i newid defnydd adeiladau ar gyfer defnyddiau diwydiannol neu fusnes ar raddfa fach os gellir cyfiawnhau'r lleoliad a ddewiswyd ac os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gyda graddfa a natur y datblygiad; a pherthynas y datblygiad gydag adeiladau/defnyddiau gerllaw.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6 - Cynllunio ar Gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, (2010).

NCT 11 – Swn, (1997).

NCT 12 – Dylunio, (2009).

NCT 23 – Datblygu Economaidd, (2014).

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8, (2016), Pennod 3 – Gwneud Penderfyniadau Cynllunio a'u Gorfodi, Pennod 7 – Datblygu Economaidd, Pennod 13 – Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli.

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais rhif C12/0202/14/YA - hysbysiad o flaen llaw am benderfyniad am ddatblygiad amaethyddol neu goedwigaeth ar gyfer dymchwel y sied bresennol a chodi sied newydd yn ei le wedi ei ganiatáu ym Mawrth, 2012. Mae'r rhan gefn o'r sied yma yn destun y cais cyfredol hwn tra bo gweddill arwynebedd llawr y sied yn parhau i'w gael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol.

3.2 Rhif ymholiad Y14/001609 – ymholiad o flaen llaw gan yr ymgeisydd a'i hasiant parthed yr egwyddor o greu cytiau cwn ym Mharciau Bach.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi yn amodol fod y swyddogion perthnasol yn hapus gyda llif ychwanegol yn y drafnidiaeth i mewn ac allan o'r safle a hefyd gyda lefel swn a all effeithio deiliaid y tai cyfagos. |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim argymhelliad gan y tybir na fuasai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd neu ffordd arfaethedig. |

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru (Trafnidiaeth): | Yn dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd ynglyn a dyluniad y fynedfa bresennol cyfarwyddir i unrhyw ganiatad cynllunio gynnwys amod a nodiadau perthnasol. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim gwrthwynebiad ond yn gwneud y sylw dylai'r tanc storio carthion aflan gael ei symud gan gontractwr trwyddedig i'w waredu o'r safle; dylid casglu gwastraff solid, ei fagio neu'i gadw mewn cynhwysydd addas a'i waredu i safle trwyddedig ac argymhellir gosod larwm lefel uchel i'r tanc dwr aflan er mwyn atal gorlifo. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Mae potensial i'r datblygiad effeithio'n andwyol ar drigolion cyfagos os nad yw cynllun gweithredol yn cael ei gynllunio yn y modd cywir sy'n cydymffurfio gydag amodau safonol cenedlaethol. Yn dilyn cyflwyno asesiad swn diwygiedig credir bod y bwriad yn dderbyniol ar sail llygredd swn yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau priodol yn ymwneud a chyfyngu nifer o gwn ar y safle ar unrhyw adeg i 13 yn unig, insiwleiddio to'r adeilad, cyfyngu ar lefel swn a all deillio o'r safle i lefel swn cefndir presennol, cyflwyno cynllun rheoli cwn ynghyd a chyfyngu ar nifer o gwn i 3 yn unig o fewn yr ardal ymarfer. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail: |

- Swn yn deillio o'r cytiau cwn gan amharu ar fwynderau'r trigolion lleol yn ystod y diwrnod ble fydd angen mynd a'r cwn am dro yn ogystal ag yn ystod y nos. Mae aflonyddwch swn eisoes yn bodoli o weithgareddau'r fferm. Effaith swn ar fusnes gwely a brecwast lleol.

- Pryder ynglŷn â'r cynnydd mewn trafnidiaeth i mewn ac allan o'r safle oddi ar y rhan yma o'r cefn ffordd. Mae'n anodd iawn dod allan i'r cefn ffordd oherwydd prysurdeb cerbydau sy'n defnyddio'r ffordd ei hun.

- Angen mwy o ystyriaeth i'r fenter ee. manylion ardal arwahanu, adnodd diogel ar gyfer cadw meddyginiaeth ayyb.

- Llif dwr sylweddol yn rhedeg oddi ar y caeau ger Parciau Bach ac angen sicrhau fod trefniadau gwaredu dŵr addas yn eu lle.

- Cywirdeb cynnwys datganiad dylunio a mynediad ee. mae ei gynnwys yn gamarweiniol gan fod anheddau preswyl wedi eu lleoli o amgylch safle'r cais.

- Potensial o gwn i ddianc a rhedeg ar draws tir amaethyddol cyfagos ar draul diogelwch a mwynderau preswyl deiliaid cyfagos.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae'r egwyddor o addasu adeiladau ar gyfer defnydd diwydiannol neu fusnes wedi ei selio ym Mholisi D10 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDUG). Mae'r polisi arbennig hwn yn datgan cymeradwyir cynigion i newid defnydd adeiladau ar gyfer defnyddiau diwydiannol neu fusnes ar raddfa fach os gellir cydymffurfio a nifer o feini prawf sy'n ymwneud a:-

1. Bod graddfa a natur y datblygiad yn dderbyniol o ystyried ei leoliad gwledig/trefol a maint yr adeilad dan sylw; a

2. Na fyddai'r datblygiad yn arwain at berthynas annerbyniol ag adeiladau gerllaw neu ddefnydd presennol.

5.2 Pwrpas y polisi yw creu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn lleol drwy drosi adeiladau ar gyfer defnyddiau masnachol a diwydiannol. Mae'r amcan hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau canlynol:-

1. Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6 Cynllunio ar Gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) sy'n nodi "dylai awdurdodau cynllunio gefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig fel modd o ddarparu cyfleoedd gwaith lleol, cynyddu ffyniant economaidd lleol a lleihau'r angen i deithio i gael gwaith". Mae hefyd yn datgan y bydd rhaid cadw effeithiau'r fath ddatblygiadau ar y gymuned leol a'r amgylchedd i'r lefel isaf posibl.

2. Mae NCT 23 Datblygu Economaidd (2014) yn datgan dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol arwain datblygiadau economaidd i'r lleoliadau mwyaf priodol yn hytrach nag atal neu beidio â chefnogi datblygiadau o'r fath.

3. Yn ogystal, mae Polisi Cynllunio Cymru (2016), Pennod 7 Datblygu Economaidd yn datgan mae gan fentrau bach ran bwysig iawn o ran hyrwyddo gweithgarwch economaidd iach mewn ardaloedd gwledig gan gyfrannu o bosibl at allu'r ardal a'r wlad i gystadlu".

5.3 O ystyried yr asesiad isod credir fod egwyddor y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig i gwrdd â pholisïau perthnasol eraill ac yn ddarostyngedig ar gynnwys mesurau lliniaru priodol drwy osod amodau cynllunio perthnasol.

### Mwynderau gweledol

5.4 Mae'r bwriad yn golygu defnyddio 3.5m o wagle cefn yr adeilad amaethyddol presennol gyda'r cytiau yn ymestyn allan 2.2m i'r iard gefn am oddeutu ¾ hyd yr adeilad ei hun. Bydd dyluniad y cytiau yn ddyluniad pwrpasol, ymarferol a syml ac yn cynnwys blociau llwyd i'r waliau gyda ffensys wedi eu galfaneiddio uwch eu pennau. Bydd y ffenestri uwchben y cytiau ac i'r ystafell paratoi bwyd a'r lolfa ynghyd a'r drysau o UPV-c a choedyn a bydd y waliau newydd i'r ystafell baratoi bwyd a'r lolfa o flociau wedi eu rendro. O ystyried nad yw'r rhan yma o'r daliad

amaethyddol yn weladwy o'r cefn ffordd nag o unrhyw dramwy cyhoeddus a chan ystyried graddfa'r estyniad credir na fydd yn cael effaith andwyol ar gymeriad y rhan yma o'r tirlun. Credir, felly, fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi B22, B23, B24 a B25 o GDUG.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.5 Fel y cyfeiriwyd ato eisoes yn yr asesiad uchod lleolir anheddau preswyl yn nalgylch safle'r cais cynllunio. Lleolir yr eiddo agosaf at y safle (cyfleuster gwely a brecwast Tal Menai) 89m i'r gorllewin, lleolir Brynmor 110m a Bryn y Wawr a Rhiw 149m i'r gogledd-orllewin gyda Penrhiw wedi ei leoli 188m a Parkia Lodge 198m i'r de-ddwyrain o'r safle. Lleolir anheddau eraill yng nghlwstwr o dai y tu cefn i Penrhiw gan gynnwys Bryn Parkia, Parkia a Bwthyn Parkia. Mae'r tir yn union o amgylch y cytiau arfaethedig yn dir amaethyddol agored heb unrhyw lystyfiant sylweddol yn enwedig i'r gogledd er bod rhywfaint o lystyfiant ar sail llwyni a choed wedi eu lleoli i'r de o'r safle ei hun. Mae nifer o ddeiliaid yr anheddau hyn wedi gwrthwynebu i'r cais ar sail y potensial bydd swn ac aflonyddwch yn tarfu o'r cytiau gan i'r cwn gyfarth ac yn effeithio'n niweidiol ar fwynderau preswyl y trigolion cyfagos. Mewn ymateb i'r pryderon hyn ac ar ofyniad Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno asesiad swn diwygiedig sy'n datgan buasai'r bwriad, o'i ganiatáu, yn cael traweffaith lleiafswm ar fwynderau cyffredinol yr ardal ac, felly, yn cydymffurfio gyda gofynion statudol cenedlaethol.

5.6 Derbyniwyd hefyd bryderon nad ydynt yn bryderon materol i gynllunio ar sail y posibilrwydd o'r cwn yn dianc ac yn rhedeg yn rhydd ar draws y tir amaethyddol cyfagos ynghyd a sicrhau darpariaeth ddiogel ar gyfer cadw meddygyniaeth ayyb. Materion rheolaethol yw'r rhain a chyfrifoldeb yr ymgeisydd yw arolygu'r cwn a sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda rheoliadau eraill sydd tu hwnt i'r drefn cynllunio.

5.7 Gan gymryd i ystyriaeth graddfa, dyluniad a lleoliad y bwriad ynghyd a chanlyniadau'r asesiad swn diwygiedig ac ymateb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i'r asesiad hwn credir gellir lliniaru'r pryderon swn yn ddigonol drwy gynnwys amodau perthnasol (a dilyn canllawiau cenedlaethol) perthnasol pe caniateir y cais hwn. Pe bai cwynion (e.e. ar sail aflonyddwch swn) yn codi ar ol i'r busnes gael ei sefydlu mae gan y cyrff rheoleiddio perthnasol y pwerau i ymchwilio i fewn i'r cwynion hyn. Credir, felly, fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi A1, A3, B23, B33 a D10 o GDUG.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.8 Nid oes bwriad newid dyluniad y fynedfa bresennol sy'n gwasanaethu'r eiddo oddi ar y cefn ffordd A.487. Mae gweledebb clir o 166m i'r de a 145m i'r gogledd sy'n ddigonol i gydymffurfio gyda'r safonau statudol. Ehangwyd 10m cyntaf o'r rhodfa i safle'r cais o dan gais blaenorol sy'n galluogi i ddau gerbyd fynd heibio'i gilydd ac mae mannau parcio a throi digonol oddi fewn i'r safle. Cyflwynwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru ar y bwriad o ddefnyddio'r fynedfa bresennol ar gyfer y defnydd arfaethedig ac, yn ddarostyngedig nad oes cynnydd o fwy na 5% yn lefel y drafnidiaeth bresennol i mewn ag allan o'r safle, nid oes gwrthwynebiad i'r bwriad. Pe bai mwy na 5% o gynnydd yn lefel y drafnidiaeth, yna, byddai angen uwchraddio'r fynedfa bresennol i safonau statudol. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol gyda'r cais sy'n cyfeirio at faterion trafnidiaeth:-

- Ar gyfartaledd mae 10 taith y dydd yn cael eu gwneud i mewn ac allan o'r safle ar hyn o bryd (5 i mewn a 5 allan) gan gerbydau'r ymgeisydd ynghyd a cherbydau achlysurol sy'n dosbarthu nwyddau i'r safle ei hun.

- Bwriad yr ymgeisydd yw casglu'r cwn ei hun yn hytrach na bod y cwn yn cael eu danfon gan eu perchnogion. Rhagwelir, felly, ni fydd llawer o gynnydd yn nhrafnidiaeth bydd yn ymweld ag yn teithio i mewn ac allan o'r safle gan ddefnyddio'r fynedfa bresennol.

- Bydd unrhyw fynediad i'r safle gan y cyhoedd/perchnogion yn eithriad a thrwy wahoddiad yn unig (rhwng 3 a 6 y pnawn ar ddydd Sul) ac mae dau reswm am y cyfyngiad amser ymweld ; (i) lleihau'r aflonyddwch swn i'r cwn all ddeillio o symudiadau cerbydau gerllaw'r a (ii) lleihau'r drafnidiaeth fydd yn defnyddio'r fynedfa bresennol i'r cefn ffordd.

I'r perwyl hyn, felly, credir na fydd y bwriad yn cael ad-drawiad ar y rhwydwaith ffyrdd lleol ac o ystyried hyn mae'r bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi CH33 a CH36 o GDUG.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.9 Fel y cyfeirir ato uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau ynglŷn â'r bwriad hwn am nifer o resymau gan gynnwys rheswm nad yw'n faterol i gynllunio. Credir fod y gwrthwynebiadau cynllunio perthnasol wedi derbyn ystyriaeth lawn yn yr asesiad uchod ac nad oes unrhyw fater yn gorbwyso'r ystyriaethau polisi a'r cyngor perthnasol a nodir.

**6. Casgliadau:**

6.1 Gan gymryd i ystyriaeth yr asesiad uchod credir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a'r polisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol fel y nodir yn yr adroddiad ac nad oes unrhyw ystyriaeth cynllunio faterol yn gwrth-ddweud hyn.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatau – amodau:-

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol a'r cynlluniau.
3. Amod parthed gweithredu'r caniatâd yn unol â'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd ar 13.05.15 ynghyd â chyfyngu'r oriau agor i'r cyhoedd rhwng 15:00 a 18:00 ar ddydd Sul yn unig.
4. Cyfyngu ar nifer o gwn i 13 yn unig ar y safle ac unrhyw adeg ac i 3 ci yn unig yn yr ardal ymarfer ar unrhyw un adeg.
5. Amod manylion insiwleiddio i'w cytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac i fod yn eu lle cyn derbyn unrhyw gwn ar y safle.
6. Y cwt heintiau i'w gyfyngu ar gyfer y diben arbennig hwn yn unig ac nid i'w ddefnyddio ar gyfer cwt arferol.
7. Cyfyngu ar lefelau swn i lefelau swn cefndir presennol.
8. Cyflwyno cynllun rheoli cwn i'w gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.